

Crisis

Gyda'n gilydd byddwn yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd

# MANIFFESTO I ROI TERFYN AR DDIGARTREFEDD YNG NGHYMRU

Mae pob un ohonom am fyw mewn cymdeithas sy’n sicrhau bod angen sylfaenol pob unigolyn am gartref a chymorth yn cael ei ddiwallu. Ond i nifer gynyddol o bobl ledled Cymru, mae hynny ymhell o fod yn realiti.



**11**

Cyllidwyd 11 prosiect ledled Cymru trwy ein cynllun grantiau coronafeirws *Gyda’n Gilydd.*



**109**

Darparodd ein gwasanaethau yn Ne Cymru adnoddau a chymorth i 109 o bobl dros Nadolig 2020.



**5,200**

Ar unrhyw un noson yn 2017, roedd tua 5,200 o aelwydydd ledled Cymru yn profi rhyw fath o ddigartrefedd.



**100**

Cyfeiriwyd at Crisis a’n gwaith rhyw 100 o weithiau yn y Senedd gan Aelodau a Gweinidogion yn 2020.

**Ond nid yw digartrefedd yn anochel – mae modd rhoi terfyn arno.**

Mae pandemig y coronafeirws wedi atgoffa pawb ohonom pa mor hanfodol yw cartref i ni, fel sylfaen i adeiladu ein bywydau arni. Fe wnaeth camau gweithredu anghyffredin gan lywodraethau, awdurdodau lleol a phartneriaid roi llety diogel i gannoedd o bobl, gan gael gwared ar brofion cyfreithiol a chaniatáu i bawb gael gafael ar gymorth. Roedd hyn yn dangos, gyda'r mesurau cywir ar waith, y gallwn fynd i'r afael â digartrefedd a rhoi terfyn arno.

**Yn yr etholiad hwn, mae Crisis yn galw ar bob plaid i ymrwymo i gynllun trawslywodraethol i roi terfyn ar ddigartrefedd o fewn degawd.**

Dydy rhoi terfyn ar ddigartrefedd ddim yn golygu na fydd neb byth yn colli eu cartref eto. Mae'n golygu, drwy atal, mai pur **anaml** y bydd digartrefedd yn digwydd, pan fydd yn digwydd, ei fod yn **fyr**, ac unwaith y bydd wedi digwydd i unigolyn neu deulu, ei fod yn cael ei **atal** rhag digwydd eto.

Mae ymrwymo i roi diwedd ar ddigartrefedd yn golygu sicrhau bod gan bawb gartref diogel a sefydlog a mynediad at y cymorth i gadw'r cartref hwnnw. Mae'n golygu:

1. **Neb yn cysgu allan**
2. **Neb yn byw mewn llety dros dro, peryglus neu anniogel. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n sgwatio, yn byw mewn ceir, pebyll ac adeiladau amhreswyl a phobl sy'n symud o soffa i soffa.**
3. **Neb yn byw mewn llety dros dro heb gynllun i'w hailgartrefu'n gyflym mewn llety fforddiadwy, diogel a saff.**
4. **Neb yn ddigartref o ganlyniad i adael un o sefydliadau'r wladwriaeth, fel carchar neu'r system ofal.**
5. **Bod pawb sydd mewn perygl uniongyrchol o fod yn ddigartref yn cael help a fydd yn atal hynny rhag digwydd.**

Yn Etholiad Senedd Cymru, mae'n rhaid i bob plaid ymrwymo i roi terfyn ar bob math o ddigartrefedd drwy wneud yn siŵr bod gan bawb gartref diogel a sefydlog, a'r cymorth sydd ei angen arnynt i'w gadw.

## Mae Crisis yn galw ar bob plaid i ymrwymo i'r canlynol:

1. **Cynllun trawslywodraethol i roi terfyn ar ddigartrefedd o fewn dau dymor yn y Senedd,** sy'n nodi'r polisïau a'r dulliau gweithredu a gyflwynwyd yn ein cynllun, Pawb Mewn: sut i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

2. **Sicrhau nad oes neb yn cael ei adael allan o'r system atal digartrefedd drwy ddileu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth ofyn am gymorth.** Dylid cyflwyno deddfwriaeth newydd yn ystod sesiwn gyntaf y Senedd, erbyn haf 2022, i ddileu'r angen blaenoriaethol, y cysylltiad lleol a'r profion bwriadoldeb o system ddigartrefedd Cymru.

3. **Ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lleol a'u partneriaid gwasanaeth lleol gytuno ar gynlluniau ailgartrefu cyflym pum mlynedd** i sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd lleol yn rhoi blaenoriaeth i helpu pobl sydd wedi colli eu cartref i gael tai sefydlog gyda chymorth cyn gynted â phosibl.

4. **Sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at le diogel i'w alw'n gartref** drwy gyflwyno 'hawl i dai digonol' yng nghyfraith Cymru; adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd yn ystod tymor y Senedd er mwyn i bobl ar incwm isel neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref eu rhentu; a chynyddu'r cymorth sydd ar gael i bobl gael gafael ar denantiaeth a'i chadw yn y sector rhentu preifat neu'r sector tai cymdeithasol.

5. **Sicrhau 'dim drws anghywir' i gael cymorth i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd** drwy gynyddu'r buddsoddiad mewn gweithgarwch atal digartrefedd wedi'i dargedu drwy'r Grant Cymorth Tai a gan wasanaethau cyhoeddus.

Crisis UK (yn masnachu fel Crisis).
Rhifau Elusen Cofrestredig:
E&W1082947, SC040094.
Rhif y Cwmni: 4024938.

CRI2021-93_WALES